

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# CYNLLUN STRATEGOL
## 2020 – 2024

Arwain y ffordd mewn addysg a hyfforddiant


Laura Hurford






Siobhan



Coleg Gw
Gower Colle

# Cynnwys


01. Croeso

02. Cyflwyniad

03. Cyd-destun

05. Strategaeth a chyflawniadau

07. Cenhadaeth a gweledigaeth

08. Gwerthoedd

09. Cyfeiriadau strategol

15 Edafedd euraidd

16. Dangosyddion perfformiad allweddol

17. Dweud eich dweud




# Croeso

Mae bellach yn 10 mlynedd ers i Goleg Gŵyr Abertawe gael ei ymgorffori fel y cyntaf o'r colegau addysg bellach mawr newydd a drawsnewidiwyd yng Nghymru ac mae'r Coleg eisoes wedi cyflawni llawer iawn yn ystod y cyfnod hwnnw.

Fodd bynnag, o ystyried heriau a phrofiadau'r flwyddyn ddiwethaf, rydym yn gwybod y bydd llawer o heriau pellach o'n blaenau ac mae ymrwymiad gan Fwrdd y Llywodraethwyr, yn ogystal â rheolwyr, darlithwyr, tiwtoriaid a staff cymorth y Coleg, i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol er budd ein dysgwyr, ein cyflogwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.


Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymgynghori â'n staff, ein myfyrwyr a'n rhanddeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf i lunio'r cynllun strategol hwn, sy'n nodi ein blaenoriaethau allweddol a sut y byddwn yn eu cyflawni.

Wrth wraidd y cynllun hwn mae ein hymrwymiad parhaus i roi ein dysgwyr yn gyntaf ac yn ganolog i'n holl benderfyniadau, ac i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf. Mae'r ymrwymiad hwn yn angerdd gwirioneddol i ni ac rydym yn gwybod y gallwn, drwy wneud hyn, fod yn sbardun i ddatblygiad economaidd a chyfiawnder cymdeithasol hefyd.

Efallai y bydd rhai yn meddwl bod pedair blynedd yn amser hir, ond rydym yn gyffrous ac yn uchelgeisiol ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni yn ystod y cam nesaf pwysig hwn. Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen hwn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyrraedd ein nodau.

| | |
|---|---|
| Meirion Howells<br>Cadeirydd y Gorfforaeth | Mark Jones<br>Pennaeth |











# Cyflwyniad

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg addysg bellach mawr gyda thros 4,500 o fyfyrwyr amser llawn a 8,000 o ddysgwyr rhan-amser – gan gynnwys 3,000 o brentisiaid – o Abertawe a'r siroedd cyfagos yn astudio gyda ni bob blwyddyn.

Heddiw, mae'r Coleg yn gweithredu o saith lleoliad ar draws Abertawe gan gynnwys campysau yn Nhycoch a Gorseinon ac mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal gyda thros 1,000 o staff a throsiant blynyddol o ychydig dan £50 miliwn.

Mae'r Coleg yn gweithio o fewn economi gymysg iawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16. O'r 14 ysgol uwchradd yn Abertawe, mae chweched dosbarth gan saith ohonynt, ac er bod amgylchedd cystadleuol ar gyfer dysgwyr ôl-16, bydd dim llai na 60% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn symud ymlaen atom ni.

Yn Abertawe mae dwy brifysgol ac mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â nhw – Prifysgol Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Yn ogystal, mae dau goleg addysg bellach cyfagos sydd â champysau yn Abertawe.

Hyd yn hyn mae llwyddiant ac enw da'r Coleg wedi cael eu hadeiladu ar:

(i) **Safon uchel y dysgu a'r addysgu** gan gynnwys ein darpariaeth Safon Uwch proffil uchel ar Gampws Gorseinon. Mae dros 1,500 o fyfyrwyr yn astudio yma (y garfan fwyaf o fyfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru) gan ddewis o blith dros 40 o bynciau Safon Uwch gwahanol.

(ii) **Ein dull cadarnhaol a rhagweithiol** o weithio gyda chyflogwyr sydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi rhoi modd i ni gynyddu ein darpariaeth prentisiaeth yn sylweddol ac arwain rhaglenni hefyd megis ein rhaglen Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd gwerth £16.8m.

# Cyd-destun

Adeg ysgrifennu, mae gennym lywodraeth geidwadol yn San Steffan, sydd bellach â golau gwyrdd i symud ymlaen â Brexit ac yn ôl yng Nghymru, mae gennym lywodraeth lafur gydag etholiadau nesaf y cynulliad yn cael eu cynnal ymhen chwe mis.

Gyda blaenoriaethau allweddol yn cynnwys gweithredu cwricwlwm 3-16 newydd a sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol diwygiedig, mae effaith yr holl newid hwn yn aneglur ar hyn o bryd.

Mae’r un diffyg eglurder hefyd yn berthnasol i gyllid yn y dyfodol. Nid yn unig o ran y cwantwm (£), ond hefyd mewn meysydd megis Dysgu Seiliedig ar Waith, lle mae’n rhaid i’r Coleg gystadlu yn erbyn darparwyr eraill i gael contract newydd. Mae’r holl ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi’n fwyfwy anodd i’r Coleg baratoi unrhyw gynlluniau tymor canolig neu hirdymor cywir, sy’n golygu y byddwn yn fwy adweithiol na rhagweithiol.

Yn ogystal, mae heriau ychwanegol yn codi o ganlyniad i bandemig Covid-19 rydym i gyd wedi dod yn gyfarwydd â nhw. Mae’r rhain yn cynnwys datblygu deunyddiau ac addysgu ar-lein newydd (y dull cyfunol) a’r angen i ganolbwyntio mwy ar iechyd, diogelwch a lles.





Yn ogystal, mae yna heriau cymdeithasol o ran poblogaeth sy'n heneiddio, lle mae bywydau gwaith yn mynd yn hirach ac mae swyddi'n newid yn gyflym.

Yn Abertawe, disgwylir y bydd cynnydd demograffig yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed yn y pedair i bum mlynedd nesaf a gallai hyn fod yn fuddiol i'r Coleg.

Mae gennym hefyd yr her bellach o weithio mewn marchnad hynod gystadleuol. Gall ysgolion ychwanegu cyrsiau galwedigaethol newydd at eu cwricwlwm, sy'n cystadlu â'n cwricwlwm ni, ac mae rhai prifysgolion yn cynnig mwy a mwy o opsiynau lefel sylfaen, yn ogystal â mwy o gynigion diamod, ac mae'r ddau yn targedu myfyrwyr a allai fod wedi penderfynu astudio gyda ni fel arall.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn awgrymu dyfodol cynyddol aneglur, ond cystadleuol. Mae'n bwysig felly bod y Coleg yn nodi ei flaenoriaethau clir ei hun a llwybr i'w cyflawni, sydd mor annibynnol â phosibl o gymorth y llywodraeth.

Yn amlwg, os oes cymorth o'r fath ar gael, h.y. trwy'r fframwaith PCET newydd, yna gallai hyn weithredu fel momentwm pellach i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd.



Canlyniadau
**Safon Uwch**
yn gyson yn
**10%**
**yn uwch** na chyfartaledd Cymru

10

10 myfyriwr y flwyddyn ar gyfartaledd yn cael cynigion gan
**golegau Rhydgrawnt**

**24/26**

dyfarniadau **ardderchog** neu **dda** yn yr arolwg **Estyn** mwyaf diweddar

Cynnydd cyson yn nifer y **myfyrwyr rhyngwladol**

## Strategaethau a chyflawniadau

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r Coleg wedi ceisio adeiladu ei enw rhagorol am ddarparu addysg a hyfforddiant o safon uchel trwy weithio gyda phartneriaid i gynyddu ei raglenni ar draws meysydd presennol a newydd.


Mae ansawdd addysg a hyfforddiant y Coleg yn parhau i fod yn uchel. Yn arolwg Estyn diweddaraf y Coleg (Chwefror 2018), roedd dim llai na 24 allan o'r 26 dyfarniad yn rhagorol neu'n dda.

Mae ein canlyniadau Safon Uwch yn parhau i fod yn rhagorol. Mae canran y graddau A*-C a ddyfarnwyd yn gyson yn 10% yn uwch na chyfartaledd Cymru ac, yn y flwyddyn ddiwethaf, mae dim llai na 12 myfyriwr wedi cael cynigion gan brifysgolion Rhydgrawnt.

Mae ein canlyniadau galwedigaethol hefyd yn cyrraedd safon debyg. Rydym yn arbennig o falch bod dim llai na phum myfyriwr Coleg wedi'u henwi yng ngharfan y DU ar gyfer Cystadleuaeth WorldSkills 2021 yn Shanghai.

Rydym hefyd yn falch o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan ein myfyrwyr addysg uwch a'r gwaith cwblhau fframwaith a gyflawnwyd gan ein prentisiaid, sy'n cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol ac sydd hefyd yn parhau i wella.

Mae'r perfformiad hwn wedi bod yn sail i gyfnod o dwf sylweddol i'r Coleg, lle mae niferoedd amser llawn wedi cynyddu'n gyson, ac mae niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio (Safon Uwch yn bennaf) yn y Coleg wedi cynyddu'n gyson hefyd.




**Twf** diweddar yn nifer y
**Prentisiaethau**

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

**Ysgol Fusnes** Plas Sgeti
Skety Hall **Business School**

AU
Lefel 5
Lefel 4

£6m
cyllid

Gwell Swyddi
Gwell Dyfodol
Better Jobs
Better Futures

EICH
COLEG
EICH
DYFODOL
EIN
GWARANT

Gan weithio gyda'n hysgolion partner y llynedd, gwnaethom groesawu dros 50 o grwpiau o ddisgyblion 14-16 am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos ac eleni, gwnaethom gyflwyno rhaglenni prentisiaeth iau amser llawn newydd.

Mae twf cymharol ddiweddar y Coleg yn nifer y prentisiaethau wedi bod yn stori anhygoel. O 250 yn 2016 i bron 3,000 bob blwyddyn nawr, ac yn ogystal â gweithio gyda chyflogwyr adnabyddus ledled Cymru, rydym hefyd yn estyn allan i Loegr, gan weithio gyda chwmnïau fel Honda a Specsavers.

Gyda chyflwyniad ein Canolfan Brifysgol newydd ar Gampws Tycoch ac mewn partneriaeth ag amrywiaeth o brifysgolion, rydym hefyd wedi gallu cynyddu ein darpariaeth Lefel 4 a 5 a chyflwyno rhaglen myfyrwyr israddedig BA llawn.

Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Abertawe a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, rydym wedi gallu sicrhau dros £6m o gyllid i gefnogi cyfres o raglenni cyflogadwyedd newydd, Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol.

Yn ogystal, rydym wedi gallu datblygu ein Gwarant Coleg Gŵyr Abertawe, sy'n flaenllaw yn y sector, ac sy'n sicrhau bod pob un o'n myfyrwyr amser llawn yn cael cyfleoedd dilyniant addas ar ôl cwblhau eu cwrs.

Mae popeth uchod yn ei dro wedi bod yn sail i dwf y Coleg o £36m yn 2015/16 i £49m yn 2019/20 ac mae wedi ein helpu i oresgyn gwasgfeydd parhaus yng nghyllid y llywodraeth trwy leihau ein dibyniaeth ar ein prif grant o 72% i lai na 50%.

Mae hyn wedi rhoi modd i ni barhau i fuddsoddi yn isadeiledd y Coleg, gan gynnwys lle addysgu a chymdeithasol newydd ar Gampws Gorseinon ac ailddatblygiad ar Gampws Tycoch sy'n cynnwys Canolfan Brifysgol bwrpasol. Rydym hefyd wedi gallu datblygu cynlluniau i ailwampio Plas Sgeti yn Ysgol Fusnes newydd.

Trwy gydol y cyfnod hwn, mae myfyrwyr a staff y Coleg wedi ennill prif wobrau cenedlaethol a'r DU yn rheolaidd ac roeddem yn arbennig o falch bod y Coleg wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer teitl Coleg y Flwyddyn y DU yng Ngwobrau AB 2016 a 2020.

# Datganiad Cenhadaeth

**ARFAETHEDIG**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cael ei barchu a'i werthfawrogi am ddarparu addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf sy'n ysbrydoli ac yn helpu pob un o'n dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn.

# Datganiad Gweledigaeth

**ARFAETHEDIG**

Arwain y ffordd ym maes addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl ddysgwyr, cyflogwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

# Gwerthoedd Craidd

**ARFAETHEDIG**

Bydd cyflawni Cenhadaeth, Gweledigaeth a chyfeiriadau strategol y Coleg yn sail i ddiwylliant cadarnhaol cryf sy'n bodoli yn y Coleg ac sydd â'r gwerthoedd craidd canlynol wrth ei wraidd.

## Cynaliadwy

Rydym yn cymryd golwg hirdymor, yn amgylcheddol, yn ariannol ac yn gymdeithasol.

## Hunanwella

Rydym yn flaengar, yn arloesol ac yn cymryd perchnogaeth.

## Uniondeb

Rydym yn onest, yn agored ac yn canolbwyntio ar ddysgwyr.

## Gallu Gwneud

Rydym yn bositif, yn gynhwysol, yn hyblyg ac yn rhagweithiol.

## Un tîm


Rydym yn cydweithredu, yn parchu ein gilydd ac yn cyfrannu at nodau tîm.

# Cyfeiriadau strategol

Rydym wedi nodi ychydig o gyfeiriadau strategol craidd a nodau cysylltiedig a fydd yn helpu'r Coleg i gyflawni ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd sy'n hawdd eu deall.

Y pum cyfeiriad strategol hyn yw:

1. **Ffocws ar ein dysgwyr a'n cymunedau**
2. **Perfformiwr o'r radd flaenaf**
3. **Arweinydd yn y sector**
4. **Cyflogwr o ddewis**
5. **Sefydliad cynaliadwy**




CYFEIRIAD STRATEGOL 1

# Ffocws ar ein dysgwyr a'n cymunedau

Heddiw, mae'r amrywiaeth o ddysgwyr sy'n mynychu'r Coleg yn enfawr.

Yn ogystal â'n myfyrwyr Safon Uwch a galwedigaethol amser llawn, mae disgyblion ysgol 14-16 oed, myfyrwyr sy'n astudio addysg uwch ac oedolion o bob oed sy'n dilyn yr amrywiaeth o gyrsiau a gynigiwn.

Trwy ein partneriaethau cryf â chyflogwyr, rydym yn hyfforddi ac yn gweithio gyda nifer ddirifedi o brentisiaid a chyflogeion, ac yn ein Hyb Cyflogaeth yng nghanol y ddinas, rydym yn gweithio gyda thros 1,000 o oedolion di-waith.

Ein hymrwymiad yw cefnogi'r holl ddysgwyr hyn i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau i'w helpu i symud ymlaen i ddysgu pellach, i yrfa neu symud ymlaen yn eu swydd bresennol, neu i ddatblygu eu sgiliau i drawsnewid eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol.

Ond mae gofynion ein dysgwyr yn cynyddu o hyd ac felly, mae angen i ni fod ar y blaen yn gyson. Trwy weithio gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys ysgolion, prifysgolion, cyflogwyr a'r llywodraeth), rydym yn datblygu cwricwlwm a llwybrau newydd trwy addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein i gefnogi galwadau sy'n newid.

Trwy gysylltu'r rhaglenni hyn â'i gilydd, gallwn gynhyrchu amrywiaeth o lwybrau clir sy'n caniatáu i'r dysgwyr gyflawni popeth y maen nhw am ei gyflawni, a chefnogi eu dysgu parhaus trwy gydol eu hoes.



CYFEIRIAD STRATEGOL 2

# Perfformiwr o’r radd flaenaf

Ffocws ar ein dysgwyr a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn trwy addysg a hyfforddiant o’r ansawdd uchaf yw ein hegwyddor hanfodol.

Byddwn yn parhau i wneud hyn trwy ein diwylliant o hunanymwybyddiaeth, myfyrio a hunanwella, wedi’u hategu gan y gwaith o osod targedau cadarn a’u mesur a’u rheoli’n effeithiol. Nid yw ein dysgwyr yn haeddu dim llai os ydym am eu helpu i wireddu eu nodau a’u huchelgeisiau.

Ein nod hefyd yw bod yn berfformiwr o’r radd flaenaf ym mhob maes arall o fusnes y Coleg. Mae ein perfformiad ariannol cryf yn allweddol. Trwy barhau i leihau ein dibyniaeth ar ein grant rheolaidd a thrwy gyflawni lefel dda o warged, mae hyn wedyn yn rhoi modd i ni fuddsoddi mewn staff, offer a chyfleusterau.

Rydym yn credu yng ngrym addysg a chryfder ein partneriaid a chyda hyn mewn golwg, byddwn yn ceisio rhannu ein harfer gorau ein hunain, a pharhau i ddysgu gan eraill ar yr un pryd.

Byddwn hefyd yn parhau i ddathlu llwyddiannau niferus ein myfyrwyr a’n staff trwy eu cofrestru ar gyfer gwobrau lleol a chenedlaethol a defnyddio eu straeon fel sbardun a chymhelliant i fyfyrwyr eraill sy’n dilyn yn agos ar eu hôl.



CYFEIRIAD STRATEGOL 3

# Arweinydd yn y sector

Rydym am i'n Coleg fod yn arweinydd, nid yn ddilynwr.

Byddwn yn parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaethau cryf ac effeithiol ag ysgolion, colegau eraill, prifysgolion, cyflogwyr a rhanddeiliaid fel eu partner o ddewis gan eu helpu i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau, ac ar yr un pryd, yn cyflawni ein nodau a'n huchelgeisiau ni.

Ein perthynas bwysicaf fydd gyda gweinidogion ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, lle byddwn yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol wrth geisio cefnogi blaenoriaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm 3-16 newydd, datblygu diwygiad y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a datblygu rôl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ymhellach – ac mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol arloesol yn ganolog i bob un ohonynt.

Ar yr un pryd, byddwn yn ceisio cefnogi themâu trawsbynciol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i gynyddu cymwyseddau digidol, y cynnydd yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a datblygu darpariaeth lefel uwch bellach a fydd yn cefnogi adfywio economaidd.

Mae bod yn arweinydd yn ymwneud â'r hyn rydych chi'n ei wneud, ond mae hefyd yn ymwneud â sut rydych chi'n ei wneud. Felly, ein hymrwymiad ni yw i'r Coleg barhau i ddatblygu ein hôl troed digidol a'n hadnoddau fel bod gan ddysgwyr fwy o hyblygrwydd o ran sut a ble maen nhw'n astudio. Bydd hyn hefyd yn golygu y gallwn deilwra ein rhaglenni hyd yn oed yn fwy i ddiwallu anghenion ein dysgwyr.




CYFEIRIAD STRATEGOL 4

# Cyflogwr o ddewis

Credwn yn gryf mai ein staff yw ein hadnodd mwyaf ac felly, mae angen eu trin felly, fel y gallant ddarparu'r addysgu a'r cymorth ysbrydoledig, deinamig ac angerddol sydd eu hangen ar ein dysgwyr ac felly gallwn hefyd recriwtio'r staff gorau i ymuno â'n timau.

I wneud hyn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff, gan ddarparu hyfforddiant a chymorth a fydd yn rhoi modd iddynt ddatblygu eu sgiliau i fynd i'r afael â'r heriau o weithio mewn Coleg ardderchog, ond hefyd i annog eu harloesedd a'u sgiliau datrys problemau.

Yn wir, rydym yn cydnabod bod gallu ein staff i addasu a newid mewn sector sy'n newid yn barhaus yn un o'r allweddi i'n llwyddiant parhaus yn ôl pob tebyg.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n helaeth ar eu lles i sicrhau eu bod yn heini ac yn iach i gyflawni eu rolau heriol, a'u bod yn gryf ac yn gydnerth hefyd i ddelio â'r sialensau sy'n ein hwynebu, nid yn unig yn y Coleg, ond ym mywyd pob dydd.

Byddwn yn sicrhau bod gan ein staff fynediad at yr offer a'r cyfleusterau gorau i'w helpu yn eu rôl. Byddwn yn parhau i gynyddu yn yr holl feysydd hyn, gan gynnwys datblygu nifer o brosiectau cyfalaf allweddol gan ddechrau gydag Ysgol Fusnes Plas Sgeti.



CYFEIRIAD STRATEGOL 5

# Sefydliad cynaliadwy

Ein nod yw, trwy edrych ymlaen, y byddwn yn fwy parod i ateb anghenion ein dysgwyr a'n Coleg yn y dyfodol. Byddwn yn buddsoddi'n strategol i sicrhau ein bod mewn sefyllfa mor dda â phosibl i gyflawni hyn.

Ond mae ystyr arall i'r gair cynaliadwyedd ac yma hefyd, mae gennym rôl i'w chwarae nid yn unig mewn cynllunio, ond bod mor ecogyfeillgar ag sy'n bosibl. Byddwn yn gwneud hyn trwy ein dewis o ddeunyddiau addysgu, ein dyluniad a'n defnydd o adeiladau a'n hymrwymiad i fod yn garbon niwtral.

Gydag arweinwyr ein cymdeithas yn y dyfodol yn astudio yn y Coleg ar hyn o bryd, mae dyletswydd arnom iddyn nhw ac ni fyddent yn disgwyl dim llai ohonom.

# Edafedd euraidd

Fel rhan o waith paratoi'r Cynllun Strategol hwn, mae'r Coleg wedi nodi nifer o edafedd euraidd sydd yn flaenoriaethau i ni. Mae'r rhain wrth wraidd ein holl weithrediadau a chyflawniad pob un o'n Cyfeiriadau Strategol.

## Dysgu gydol oes

Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes.

## Ansawdd

Cyflwyno'r canlyniadau gorau mewn dysgu ac addysgu.

## Cyflogadwyedd

Ffocws ar y cyfleoedd dilyniant a chyflogaeth hirdymor i'n holl fyfyrwyr.

## Gwerth am arian

Y defnydd gorau o adnoddau ariannol cyfyngedig.

## Digidol

Defnydd cynyddol o dechnoleg o ran datblygu a darparu dysgu ac addysgu.

## Lles

Ffocws ar iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff.

# Dangosyddion perfformiad allweddol

## 1 Ffocws ar ein dysgwyr a'n cymunedau

- Cynnydd yn y niferoedd cofrestru AB ac AU.
- Cyfran uwch o'r garfan ar ôl blwyddyn 11.
- Cynnydd yn y cyfraddau dilyniant.

## 2 Perfformiwr o'r radd flaenaf

- Pob dyfarniad - mewn arolygiadau allanol - i fod yn dda neu'n ardderchog.
- Cyfraddau llwyddo i fod yn y chwartel uchaf.
- Canlyniadau boddhad dysgwyr AB i fod yn y chwartel uchaf.
- Y gwarged a ragwelir (EBITDA) i fod yn y chwartel uchaf.
- Canran y ddibyniaeth ar y grant rheolaidd i fod yn y chwartel isaf.
- Buddsoddiad parhaus yn ystâd ac isadeiledd y Coleg.
- Staff a myfyrwyr y Coleg i ennill gwobrau cenedlaethol.

## 3 Arweinydd yn ` y sector

- Cynnydd o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cyflwyniad llwyddiannus o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 4 Cyflogwr o ddewis

- Cyfraddau boddhad staff i fod yn y chwartel uchaf.
- Niferoedd da o geisiadau cryf am rolau allweddol.

## 5 Sefydliad cynaliadwy

- Cadw ein statws Draig Werdd.
- Symud tuag at fod yn garbon niwtral.



# Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu'ch sylwadau a'ch barn am ein cynllun.

**strategicplan@gcs.ac.uk**

www.gcs.ac.uk/cy/strategic-plan-2020-2024